



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## **Nodiadau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

**6 Medi 2019**

**9:00 am to 1:00 pm**

**Optic, Llanelwy**

Yn bresennol: Teresa Owen (Cadeirydd), Bethan Jones Edwards, Morwena Edwards, Bethan E Jones, Charlotte Walton, Chris Stockport, Clare Budden, Cyng Christine Jones, Cyng Joan Lowe (JLo), Cyng Louise Emery (cyrhaeddodd 10:00 yb), Cyng Dafydd Meurig, Estelle Hitchon, Ffion Johnstone, Claire Lister (yn bresennol ar ran Jenny Williams), Kevin Roberts, Lesley Singleton (yn bresennol tan 11.00yb), Llinos Medi Huws, Lynda Colwell (yn bresennol tan 12:30 yp), Marian Wyn Jones, Mark Wilkinson (MWil), Mary Wimbury (MWim), Neil Ayling, Nicola Stubbins (cyrhaeddodd 12:00 pm), Peter Williams (yn bresennol tan 10:15 yb), Rob Smith, Wendy Jones, Jane Davies (yn bresennol ar ran Neil Ayling), Catherine E Jones, John Gladston

Ymddiheuriadau: Cyng Bobby Feeley, Dave Worrall, Jennie Lewis (JLe), Jenny Williams, Judith Greenhalgh, Sacha Hackett, Steve Gadd, Shan Lloyd Williams

Hefyd yn bresennol: Lynda Chandler (LCh), Rheolwr Gwella Perfformiad, Gofal heb ei Drefnu, Yr Uned Gyflawni, Gig Cymru (eitem 2 ar y rhaglen); Yr Athro John Bolton (JB), Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (eitem 2 ar y rhaglen); Jennifer Morgan (JM), Y Tîm Dadansoddi, Yr Uned Gyflawni (eitem 2 ar y rhaglen); Emrhys Pickup (EP), Y Tîm Dadansoddi, Yr Uned Gyflawni (eitem 2 ar y rhaglen); Keith Moultrie (KM) - Y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (eitem 4 ar y rhaglen)

### **1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Estynnodd y cadeirydd groeso cynnes i bawb. Cyflwynodd pawb eu hunain a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod. Estynnwyd croeso cynnes i'r Cyng. Louise Emery, Catherine E Jones a John Gladston, gan mai hwn oedd eu cyfarfod cyntaf.

## 2 Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod diwethaf

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 6 Mehefin fel rhai cywir.

### *Camau Gweithredu a gwblhawyd*

- Tîm sefydledig yn edrych ar gysylltedd digidol yn y rhanbarth.
- Mae llythyr cynnig grant LIC wedi cael ei arwyddo gan y cadeirydd ac wedi ei anfon i LIC.
- Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi cael ei gwblhau, ei gyhoeddi ac ar gael ar y wefan Cydweithio Rhanbarthol
- Mae cyfarfod arall gyda sefydliadau'r Trydydd Sector wedi cael ei drefnu ar gyfer 22.10.2019.
- Mae Cyllidebau Cyfun yn datblygu drwy broses gwleidyddol ALI/PBC.
- Mae BJE a MB wedi cyfarfod â JLe a PW mewn perthynas â thaliad cydnabyddiaeth gofalwyr. Cytunodd JLe a PW ar bapur drafft, sydd wedi cyrraedd, ond nid yw BJE a TO wedi cael cyfle i'w drafod hyd yn hyn. I'w gyflwyno yng nghyfarfod Tach/Rhag.
- Cadarnhaodd TO ei fod wedi anfon nodyn o gydnabyddiaeth i'r Cynghorydd Liz Roberts.

### *Camau Gweithredu sy'n weddill*

- Casglu gwybodaeth swyddogion ALI sydd ynghlwm Gwerth Cymdeithasol fel rhan o'u rôl.
- RW i gysylltu â Jo Taylor er mwyn diweddarau'r Bwrdd ar adroddiad drafft y Cod Ymarfer Awtistiaeth.
- WCCIS i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mis Tach/Rhag.

Adroddodd TO ar gyfarfod cadarnhaol gyda'r Dirprwy Weinidog a holl Gadeiryddion ac Arweinwyr Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol Cymru ar 03.07.2019, ac roedd trafodaethau ar:

- Ddatblygu gwaith ar ffrwd waith Plant ynghyd â ffrwd waith pobl hŷn.
- Craffu'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.
- Bydd Canllawiau Statudol Newydd yn cael eu cyflwyno yn yr Hydref.

## 3 Cynnig o ran gwaith Cenedlaethol ar 'Addasu Gwasanaethau Cymunedol'

Rhoddodd LC drosolwg o'r cynnig o ran gwaith Cenedlaethol ar 'Addasu Gwasanaethau Cymunedol'. Yn 2018, cyflawnodd Uned Gyflawni GIG Cymru adolygiad iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol o ymarferion rhyddhau cymhleth yng Nghymru. Roedd yr heriau ynghlwm addasu gwasanaethau cymunedol i ddiwallu'r galw ar gyfer pobl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, yn codi fel thema genedlaethol ar gyfer awdurdodau lleol a byrddau iechyd. Yn dilyn ymateb cadarnhaol yn y gynhadledd genedlaethol ac er mwyn helpu i fynd i'r afael â'r heriau hynny, mae'r Uned Gyflawni yn cynnig ymarfer modelu i holl fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol, i'w ddarparu ar y cyd a gyda chefnogaeth yr

Uned Gyflawni, Llywodraeth Cymru a'r Athro John Bolton o'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus.

Adroddodd JB ar y gwaith cadarnhaol oedd eisoes yn digwydd yn y rhanbarth, ac er bod y papur gwreiddiol yn hen, nid yw'r egwyddorion wedi newid.

1. Dylai gofal tu allan i'r ysbyty fod yn wasanaeth a gyflawnir ar y cyd.
2. Pwysigrwydd adferiad; dylai bawb gael cynllun adfer wrth gael eu rhyddhau o'r ysbyty

Trafododd JB y materion allweddol sydd wedi codi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty:

- Yr angen i gomisiynu a dylunio trefniadau ar gyfer gofal tu allan i'r ysbyty fel unig ffocws y darparwyr.
- Dylai gofal ar ôl bod yn yr ysbyty ganolbwyntio ar adferiad pobl sydd wedi derbyn ymyraethau defnyddiol mewn lleoliad aciwt.
- Dylai pob claf dderbyn cynllun adfer sy'n canolbwyntio ar beth fydd y gwasanaethau iechyd a gofal yn ei wneud ar gyfer y claf a'r hyn y dylai'r claf wneud dros ei hun.
- Ni ddylai asesiad ar gyfer yr hirdymor gael ei gwblhau o wely'r ysbyty.
- Yn gyffredinol, mae asesiadau mewn ysbytai yn digwydd rhy aml a gwelir cleifion yn gadael yr ysbyty ar y llwybr gofal anghywir.
- Mae anghenion cleifion am wasanaethau yn cael ei bennu'n rhannol gan yr hyn sy'n digwydd iddynt yn yr ysbyty.

Mae'r system angen rheolaeth o:

- Lif y bobl sydd allan o'r ysbyty ac olrhain yr hyn sy'n digwydd i bobl ar ôl gadael yr ysbyty.
- Disgwyliad am lwybr clir allan o'r ysbyty ar gyfer pawb.
- Atgyfeirio pobl i gyfleusterau sydd â'r gallu i'w helpu i ddychwelyd adref os yw hynny'n bosibl.

Byddai'r Uned Gyflawni yn croesawu'r cyfle i drafod ymhellach, er mwyn poblogi'r model gyda data Gogledd Cymru, er mwyn asesu sut mae niferoedd y cleifion yng Ngogledd Cymru yn cymharu â'r model, ac i ganfod amrywiaethau posibl rhwng y trefniadau comisiynu presennol a'r angen presennol/yn y dyfodol.

Mae'r fethodoleg ar gyfer Gogledd Cymru wedi cael ei ddefnyddio gam gymryd Data ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19, a ffigyrau esiampl wedi'u cymryd a'u rhannu i ranbarthau Awdurdod Lleol. Unwaith i'r templed gael ei boblogi gyda data cywir, bydd cymharydd yn cael ei greu ar gyfer bob All.

Diolchodd y cadeirydd i'r tîm am eu cyflwyniad llawn gwybodaeth.

Croesawodd ChS y cyflwyniad hefyd, sydd yn hynod o bwysig i waith y rhanbarth ac anogodd y Bwrdd i'w gefnogi.

Soniodd LC am yr adroddiad 'Adref o'r Ysbyty i Gartref Iachach' sy'n gwerthuso'r gwasanaeth mae Asiantaethau Gofal a Thrsio ar draws Cymru yn darparu i gefnogi cleifion sydd wedi'u rhyddhau o'r ysbyty. Dywedodd LC bod hysbysiad ffurfiol wedi cael ei dderbyn yn dilyn yr adroddiad, bod Vaughan Gething wedi cymeradwyo ymestyn y prosiect tan 31 Mawrth 2020.

Dywedodd AJ ei fod yn cefnogi'r model, a gall ei ddefnyddio hefyd i ddynodi bylchau a materion, ond er mwyn gweld llwyddiant, rhaid i'r data gael ei fewnbynnu. Mae risg hefyd o fethu materion diwylliannol ac osgoi risg o fewn model economaidd, a holodd beth oedd y ffordd orau o fynd ymlaen.

Cadarnhaodd LCh y bydd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a SCW hefyd yn cefnogi'r model mewn perthynas ag osgoi risg.

Awgrymodd JB bod cyfarfodydd misol yn cael eu trefnu gydag unigolyn dynodedig o'r Uned Gyflawni yn mynychu bob chwarter, fel cyfaill beirniadol, er mwyn sicrhau bod y newidiadau cywir yn cael eu gwneud yn y system o ganlyniad i'r canlyniadau data.

Croesawodd MWJ'r cyflwyniad fel sail dystiolaeth ar gyfer modelau newydd o ofal, a holodd am amserlen i gwblhau'r casgliad data a'r disgwyliadau.

Cadarnhaodd LCh bod yr amserlen yn hyblyg ac yn cael ei benderfynu gan bob rhanbarth yn unigol, yn ddibynnol ar ba mor sydyn bydd y model yn cael ei boblogi, gyda rhai ardaloedd yn cyflawni hyn mewn 2 wythnos tra bod eraill yn cymryd misoedd i'w gwblhau. Bydd yr uned ddata yn cynorthwyo'r rhanbarth gyda'r gwaith.

Cododd MWim y mater bod rhaid i ddarparwyr hefyd reoli'r broses a chynorthwyo mewn trafodaethau ar ofal hirdymor er mwyn cyflawni ail-alluogi, gyda gwybodaeth a mewnbwn ar y lefel nesaf o gefnogaeth. Bydd angen trafodaeth am y gweithle hefyd fel rhan o'r prosiect, gan fod disgwyl i'r nifer o weithwyr gofal cartref gynyddu'n sylweddol.

Roedd JB yn cytuno â MWim a dywedodd y gellir dod o hyd i nifer o bapurau, yn arbennig o ran gofal cartref ar wefan yr IPC.

Pwysleisiodd BEJ y gefnogaeth a chroesawodd y strwythur mae'n cyflwyno i ddechrau gweld yr hyn sy'n digwydd o fewn ein systemau, ond roedd hefyd yn

cydnabod yr heriau o ran newid diwylliannol, a holodd beth all gael ei gynnis er mwyn cynorthwyo i fynd i'r afael â hyn. Dywedodd JB, mewn rhanbarthau eraill mae dod ynghyd i gyflawni'r ymarfer yn galluogi trafodaeth am y newid diwylliannol.

Holodd RS ynglŷn â'r camau nesaf ac awgrymodd bod un person o PBC yn cael ei ethol i arwain ar y rhaglen, a'r lleoliad gorau i ddelio â'r model hwn fyddai o fewn y Rhaglen Trawsnewid Cymunedol.

Diolchodd ME i'r cydweithwyr am y cyflwyniad ac anogodd y rhanbarth i gymryd gofal gyda'r data, gan ddynodi bod rhanbarth y Gorllewin wedi treulio amser sylweddol yn deall profiadau unigolion/straeon cleifion, a byddai hyn yn gyrru'r data er mwyn gwireddu newid o fewn ymarfer, gan fod angen gweld yn uniongyrchol, sut gall eu harferion newid. Cynigodd hefyd y dylai'r gwaith hwn gael ei beilota ar y cyd â gwaith Gofal yn Nes at y Cartref/ Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol, yn hytrach na sefydlu ffrwd gwaith newydd.

#### **4 Y wybodaeth ddiweddaraf ar y Fforwm 'Mwy Na Geiriau' Gogledd Cymru**

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan ME ar y gwaith a gyflawnwyd gan y Fforwm.

Adroddodd ME bod y gwaith ar y fframwaith strategol ar draws Cymru wedi parhau i ffynnu yn ystod 2018-19. Mae aelodaeth y Fforwm yn cynnwys PBC, ALI, Gofal Cymdeithasol Cymru, Gwasanaeth Ambiwlans Cymru, Ymddiriedolaeth y GIG, HEIW ac Ysgol y Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor sy'n cyfarfod bob chwarter i lywio rhaglen y Fforwm, rhannu gwybodaeth ac esiamplau o arferion da. Mae wedi bod yn galonogol gweld grwpiau tebyg yn cael eu sefydlu mewn ardaloedd eraill yng Nghymru er mwyn hwyluso'r ddarpariaeth o 'Mwy na Geiriau'.

Yn dilyn cyfnod yn arwain ar y rhaglen waith cenedlaethol, mae ME wedi ailymuno â'r fforwm yn ddiweddar, gan dderbyn rôl y Cadeirydd. Mae ME hefyd yn mynychu'r Bwrdd Partneriaeth Cymraeg (yn cynrychioli CCGC) sy'n cael eu gyd-gadeirio gan Simon Dean ac Albert Heaney LIC.

Mae'r heriau allweddol sy'n cael eu trafod ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Recriwtio staff Cymraeg.
- Ieithoedd gwahanol wrth weithio mewn tîmoedd integredig.
- Platfformau digidol er mwyn gallu gweithio'n ddwyieithog
- Eglurder meini prawf AGC wrth archwilio cartrefi gofal.
- Cefnogi'r sector annibynnol i gyflawni gofynion Mwy Na Geiriau.
- Cynhwysedd ar gyfer hyfforddiant a chefnogi dysgwyr

- Sicrhau bod y Fforwm yn cysylltu â byrddau rhanbarthol a chenedlaethol strategol allweddol, er mwyn sicrhau bod materion a datrysiadau yn cael eu rhannu.

Pwysleisiodd ME, er bod rhai yn dewis derbyn gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y Gymraeg gan mai dyna sydd well ganddynt. I eraill, mae hyn yn fwy na dewis yn unig – mae'n angen gwirioneddol, a gall absenoldeb yr angen sylfaenol hwn, arwain at ganlyniadau difrifol iawn. Mae'r Gymraeg yn sgil a dylai holl staff gael y cyfle i ddysgu. Mae hefyd yn braf nodi bod cynnydd yn cael ei wneud o fewn BIPBC o ran y Gymraeg.

Ychwanegodd MWJ bod y broses o recriwtio staff dwyieithog o fewn lechyd a Gofal Cymdeithasol yn codi cwestiynau am y ffordd yr ydym yn dechrau trafodaeth strategol er mwyn sicrhau gweithlu gwirioneddol ddwyieithog. Ychwanegodd MWJ nad yw iaith yn cael ei nodi fel gofyniad ar y radd nyrsio, sy'n orlawn ar hyn o bryd.

Cadarnhaodd ME bod hyn yn fater sydd wedi cael ei drafod yn Fforwm Gogledd Cymru a'r Bwrdd Cenedlaethol, sydd angen cael ei herio, ynghyd ag Arolygiaeth lechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, er mwyn creu newidiadau o ran y gofynion yn y dyfodol.

Awgrymodd ME y gallai'r materion hyn fod yn rhan o'r rhaglen ar gyfer trafodaeth gyda Chomisiynydd y Gymraeg yng nghyfarfod nesaf y Fforwm ym mis Rhagfyr 2019 neu Ionawr 2020.

#### *Camau Gweithredu*

- ME i drafod y materion uchod yn Fforwm 'Mwy na Geiriau' Gogledd Cymru Rhagfyr/Ionawr.

## **5 Gweithdy – Keith Moultrie**

Mynychodd Keith Moultrie, IPC, er mwyn cynnal gweithdy gydag aelodau'r Bwrdd, er mwyn llunio ei gynllun canolig a hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn y rhanbarth, yn ôl gofyniad Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru.

## **6 Rhaglenni Trawsnewid Cymru Iachach**

Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan NS ar y gwaith a gyflawnwyd mewn perthynas â thair elfen graidd Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc:

1. Cymorth cynnar: Datblygu hybiau cymorth/ymyrraeth gynnar.

2. Gwasanaethau ar Ffiniau Gofal: ymestyn mynediad at gefnogaeth therapiwtig trwy dimau/llwybrau integredig.
3. Timau Asesu a Chefnogaeth: Asesiad preswyl byrdymor gyda thîm amlddisgyblaethol er mwyn nodi'r lleoliad mwyaf priodol i fodloni'r anghenion cefnogaeth a'r canlyniadau a ddymunir.

Mae'r gwaith yn parhau drwy Fwrdd Trawsnewid Plant, yn canolbwyntio ar ddarpariaeth ranbarthol, isranbarthol a lleol.

Roedd y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yn cynnwys:

- Mae'r Rheolwr Rhaglen wedi bod yn y swydd ers mis Mai 2019. Mae tri allan o'r pedwar Rheolwr Prosiect wedi cael eu recriwtio'n llwyddiannus ac mae dau ohonynt wedi dechrau yn eu gwaith eisoes, gyda'r trydydd yn dechrau ym mis Medi. Mae recriwtio ar gyfer y bedwaredd swydd ar y gweill.
- Mae gwaith rhanbarthol ac isranbarthol yn digwydd gyda'r 'Prosiect Amddiffyn Plant yn Effeithiol' a lansiwyd o fewn Gwynedd.
- Cynhaliwyd gweithdy gan IPC, mewn perthynas â 'mewnsoed cyd-gynhyrchu a chomisiynu gyda phlant a phobl ifanc' ar 27.6.2019.
- Mae ymgysylltiad â chaffael o ran tendr gwerthuso ar y cyd, wedi arwain at 3 tendr ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc.

Mae'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y cyfnod adroddi nesaf yn cynnwys:

- Sefydlu tîm prosiect drwy recriwtio Rheolwr Prosiect arall.
- Datblygu'r rhaglen waith, cynlluniau cyflawni prosiect a chostau drwy weithdai ar wahân, gyda'r 3 ardal (Gorllewin/Canolog/Dwyrain) gan ganolbwyntio ar drefniadau llywodraethu lleol ac isranbarthol.
- Deall sut mae'r pedwar Rhaglen Trawsnewid yn alinio ac yn cefnogi ei gilydd, trwy drafod yn y Bwrdd Trawsnewid Plant nesaf, gyda chydweithwyr Trawsnewid Anableddau Dysgu, er mwyn archwilio sut all y Rhaglen Trawsnewid Anableddau Dysgu a'r Rhaglen Trawsnewid Plant a Phobl Ifanc weithio gyda'i gilydd dros y 12 mis nesaf.

Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

Derbyniodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf gan ChS ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol.

Mae penodiad Rheolwr Rhaglen wedi galluogi cynnydd sylweddol ar y rhaglen, ac mae gwaith yn mynd rhagddo yn yr 14 ardal lechyd a Gofal Cymdeithasol sy'n darparu gwasanaethau integredig yn y gymuned.

Roedd y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn, yn cynnwys:

- Mae tendr diweddar i gomisiynu darparwr i werthuso'r rhaglen, wedi cael ei gwblhau. Yn dilyn y cyfnod 'digyfnwid' 10 niwrnod, bydd y darparwr llwyddiannus yn cael ei gyhoeddi. Mae hwn yn gam pwysig o ran datblygiad ac effaith y rhaglen.
- Bydd trefniadau llywodraethu'r rhaglen yn cael ei gytuno yng nghyfarfod y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol, gan gydnabod bod y gwaith a gyflawnir angen adlewyrchu blaenoriaethau ac anghenion o fewn ardaloedd penodol a'i symud ymlaen drwy Fyrddau Gwasanaeth Integredig Ardal.
- Mae'r Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal wedi cael cais i gyflwyno cynlluniau i'r Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol gan gynnwys cynlluniau gwariant, sicrhau cynaliadwyedd a newid system gwirioneddol.
- Mae'r Byrddau Gwasanaeth Integredig Ardal wedi cael cais i fynegi diddordeb mewn dod yn un o dri 'arloeswr lleol'. Bydd hyn yn cael ei drafod yn y Bwrdd Trawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Hydref a bydd diweddariad yn fuan.
- Mae cyllidebau cyfun hefyd yn cael ei archwilio o fewn y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol. Bydd cyllid ar gael ei gefnogi technoleg ddigidol a bydd angen i bedair ardal ddod ymlaen i gynorthwyo.

Daeth ChS â'r gofrestr risg trawsnewid a oedd yn amlygu'r risgiau sylweddol, ond fe roddodd sicrwydd bod dulliau i fynd i'r afael â'r risgiau hyn yn llwyddiannus.

Diolchodd MWJ i ChS am y wybodaeth ddiweddaraf a nododd y cynnydd sylweddol a wnaed hyd yn hyn ar y Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol.

## **7 Unrhyw Fater Arall**

Gweithdy Hunanasesiad Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - 02.10.2019

Mae'r enwau canlynol wedi cael eu hanfon i LIC: Bethan Jones Edwards, Bethan E Jones, Chris Stockport, Estelle Hitchon, Cyng. Bobby Feeley, David Worrall, Alwyn Jones, Marian Wyn Jones, Mary Wimbury



Gwahoddiad i ddigwyddiad dysgu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - 28.11.2019

Mae'r canlynol wedi mynegi diddordeb i fynychu'r digwyddiad dysgu hwn:  
Bethan Jones Edwards, David Worrall, Mary Wimbury, Cyng. Dafydd Meurig

Mae mwy o lefydd ar gael – anfonwch enwau ychwanegol i RW.

Trefniadau sy'n codi ar draws y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau  
Gwasanaethau Cyhoeddus

Mae crynodeb y gynhadledd a llythyr LIC wedi'u nodi gan y Bwrdd Partneriaeth  
Rhanbarthol mewn perthynas â'r disgwyliad i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a  
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus weithio mewn partneriaeth a darparu ymateb  
lleol a rhanbarthol cydlynol i anghenion lles unigolion.

*Camau Gweithredu*

- Enwebiadau ychwanegol I ddigwyddiad dysgu BPRh 28.11.2019 i RW